

Gwers 10 –
Gwybod
eich Hawliau



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Sesiwn Lawn

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Gwybod eich Hawliau

Amcan Dysgu:

- Crynhoi'r cynllun gwaith
- Nodi beth ddysgwyd fel rhan o'r cynllun gwaith
- Dathlu cyfraniad pob disgybl
- Cwblhau "Llyfryn Fy Hawliau i" – gall hyn ddigwydd ar draws nifer o sesiynau.

Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu adnabod Sally Holland a nodi nifer o hawliau sy'n bwysig iddyn nhw eu hunain ac eraill.

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi hawl sy'n bwysig i'w bywydau nhw er mwyn datblygu, cyfranogi, cael eu hamddiffyn a goroesi

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn datblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant ymhellach

Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?
- Beth yw ystyr goroesi/cyfranogiad/amddiffyniad/datblygiad?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl rydych chi angen i dyfu i fyny'n iach?
- Ydy unrhyw un yn gallu cofio hawl rydych chi angen i dyfu i fyny'n ddiogel?

Deunyddiau / Adnoddau angenrheidiol:

- Llun o Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Storiâu Cymdeithasol
- Pecyn lluniau
- Cardiau Symbolau / Poster Hawliau
- Gwrthrychau i gyfeirio atynt
- Llyfryn Fy Hawliau i

Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion.

Edrychwch ar y pecyn lluniau unwaith eto; rhwch gyfle i'r disgyblion gynnig syniadau a safbwyntiau ynghylch hawliau plant. Efallai y byddwch hefyd am argraffu'r fersiynau du a gwyn fel gweithgareddau lliwio.

Trafodwch beth sydd wedi cael ei ddysgu yn ystod y 9 gwrs flaenorol a phwysigrwydd hawliau plant.

Unwaith eto, tynnwch sylw at Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a'i rôl.

Prif Weithgaredd:

I gloi'r cynllun gwaith, dathlwch ran pob disgybl yn y gwrsi trwy roi tystysgrif i bob disgybl.

Efallai byddwch am ychwanegu gweithgaredd grŵp difyr er mwyn i'r dosbarth ddathlu eu llwyddiant. Neu gallwch chi greu ardal arddangos neu gyflwyniad i rannu'r gwaith maen nhw wedi'i wneud gyda chymuned yr ysgol neu deuluoedd.

Sesiwn Lawn:

Gofynnwch i'r disgyblion orffen unrhyw weithgareddau maen nhw heb eu gwneud yn eu "Llyfryn Fy Hawliau i", i gadarnhau'r wybodaeth sydd ganddynt eisoes.

Gwahoddwch Sally, y Comisiynydd Plant, neu ei thîm i ddod i gwrdd â'ch dosbarth i ddysgu am yr holl waith rydych chi wedi'i wneud ar hawliau. Gallwch chi rannu eich llyfrynnau hawliau a dangos unrhyw arddangosfeydd a lunioch chi am hawliau.

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn hybu AFL, wrth i'r dysgwyr ddarparu rhesymau priodol a dangos dealltwriaeth o'r pethau mae arnyn nhw eu hangen er mwyn goroesi. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion briodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig/lefel isel â PECS / lluniau i gyfeirio atynt

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru @complantcymru neu e-bostio post@complantcymru.org.uk